EISTEDDFOD

**RHEOLWR CYFATHREBU**
**Atebol i:** Cyfarwyddwr Strategol yr Eisteddfod

---

## Cefndir

Yr Eisteddfod Genedlaethol yw un o brif wyliau a phrosiectau cymunedol Cymru. Cynhelir yr ŵyl yn flynyddol yn ystod wythnos gyntaf mis Awst, gan deithio o ardal i ardal, gan ymweld â gogledd a de Cymru bob yn ail. Mae'n gyfle i gymunedau ym mhob rhan o Gymru groesawu ymwelwyr dros gyfnod o wyth niwrnod.

Amcanion craidd yr Eisteddfod Genedlaethol yw hyrwyddo diwylliant Cymru a diogelu ein hiaith, hanes a thraddodiadau mewn cymdeithas amrywiol fodern. Mae'r ŵyl yn cael ei chynnal i ddathlu popeth Cymreig ac i ddatblygu diwylliant Cymru drwy:

- Annog pobl i ddefnyddio a dysgu'r Gymraeg;
- Hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru yn cynnwys y gwyddorau;
- Arddangos perfformwyr Cymreig i gynulleidfa ehangach;
- Darparu canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Mae'r ŵyl yn hyrwyddo ein hiaith ac yn annog ei defnydd drwy arddangos talent o Gymru, gan gynnwys artistiaid, cerddorion, perfformwyr, busnesau, addysgwyr a darparwyr cymdeithasol. Mae'r gymuned leol, ynghyd â busnesau'r ardal yn cael eu hannog i fynd ati i gymryd rhan, gan roi gogwydd lleol i ŵyl genedlaethol sy'n cynnig blas Cymreig arbennig i adlewyrchu diwylliant, traddodiadau a gwerthoedd pobl Cymru.

## Strwythur yr Eisteddfod

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru wedi'i chofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif: 1155539).

Mae system rheoli barhaol yr Eisteddfod Genedlaethol yn cynnwys y Bwrdd Rheoli (Ymddiriedolwyr); y Cyngor a'r Llys. Mae'r Bwrdd Rheoli yn goruchwylio pob rhan o'r sefydliad drwy gynnal cyfarfod rheolaidd tua unwaith y mis i drafod meysydd a datblygiadau pwysig.

Mae'r Eisteddfod yn dibynnu ar gannoedd o wirfoddolwyr, yn lleol a chenedlaethol er mwyn sicrhau bod pob elfen o'n gwaith gan gynnwys ein prosiect cymunedol a'r ŵyl yn llwyddiant.

EISTEDDFOD

**DISGRIFIAD SWYDD**

---

**Prif Ddyletswyddau**

- Llunio a gweithredu strategaethau cyfathrebu'r Eisteddfod yn ganolog ac ar gyfer pob Eisteddfod unigol.
- Rheoli, hybu a pharatoi arweinyddiaeth greadigol gan ddatblygu adnoddau a systemau i hybu gweithgareddau, a monitro, datblygu a chodi proffil yr Eisteddfod yn y wasg a'r cyfryngau.
- Rheoli enw da'r Eisteddfod yn gyhoeddus.
- Cydlynu sianelau cyfryngau cymdeithasol yr Eisteddfod.
- Monitro ffynonellau gwybodaeth a gynhyrchir gan sefydliadau allanol perthnasol a chynghori'r Tîm Rheoli a'r Bwrdd ar ymateb corfforaethol.
- Comisiynu a rheoli ymchwil yn ôl yr angen a chreu, coladu a llunio arolygon er mwyn paratoi gwybodaeth ystadegol i hysbysu penderfyniadau'r Tîm Rheoli a'r Bwrdd.
- Paratoi cylchlythyrau electronig ar gyfer ymgysylltu gwleidyddol a chyda rhanddeiliaid.
- Cynllunio a gweithredu anghenion cyhoeddusrwydd noddwyr.
- Cydlynu a chreu ceisiadau grant ac ymddiriedolaethau.
- Sicrhau bod pwyllgorau hyrwyddo lleol yn eu lle a rheoli'r broses a goruchwylio'r Gronfa Leol.
- Rheoli'r berthynas gyda phartneriaid lleol , gan gynnig arweiniad a chymorth ar faterion sy'n ymwneud â chyfathrebu a'n gwaith cymunedol.
- Cydweithio'n lleol ar ymgyrchoedd harddu cymunedol yr Eisteddfod.

**MANYLEB PERSON**

---

## Profiad a sgiliau

- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu ardderchog yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Perthynas dda gyda'r wasg a'r cyfryngau.
- Y gallu i feddwl yn greadigol a hyblyg, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â phroblemau a heriau.
- Y gallu i weithio'n annibynnol ac o dan bwysau gan ddatblygu syniadau a strategaethau newydd.
- Profiad o lunio, datblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau llwyddiannus sy'n ymwneud â phob elfen o waith cyfathrebu.
- Profiad o gynnal prosiectau ymchwil.
- Profiad o ddenu nawdd, grantiau, a rhoddion ar bob lefel.
- Profiad o reoli staff, prosiectau a chyllidebau.
- Profiad o ddatblygu perthnasau adeiladol ac effeithiol, ac o ddylanwadu ar bartneriaid allweddol.
- Y gallu i feddwl yn greadigol a hyblyg, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â phroblemau a heriau.
- Profiad o gynrychioli sefydliad neu gwmni mewn pob math o gyfarfodydd a digwyddiadau.
- Y gallu i weithio'n annibynnol ac o dan bwysau.
- Parodrwydd i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau yn achlysurol.

EISTEDDFOD

**TELERAU AC AMODAU**

---

**Math o gytundeb:** Parhaol

**Cyflog:** £35,806 i £37,988. Penodir ar waelod y raddfa.

**Gwyliau:** 25 diwrnod y flwyddyn, yn cynyddu i 30 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth, ynghyd ag 8 niwrnod gwyliau cyhoeddus statudol Cymru a Lloegr, a'r dyddiau gwaith arferol rhwng gwyliau cyhoeddus statudol y Nadolig a'r flwyddyn newydd.

**Pensiwn:** Bydd cyfle i ymuno â chynllun pensiwn yr Eisteddfod, neu mae'n bosibl y byddwch yn cael eich cofrestru ar gyfer cynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.

**Cyfnod prawf:** 6 mis

**Oriau gweithio a threfniant gwaith:** 35 awr yr wythnos, Llun – Gwener. Bydd disgwyl i'r sawl a benodir i fod yn hyblyg, gan fod peth gwaith gyda'r nos ac ar benwythnosau.

**Lleoliad:** Mae gan yr Eisteddfod swyddfeydd yng Nghaerdydd a Llanybydder neu gellir gweithio o gartref mewn unrhyw ran o Gymru.

**Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG):** Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).

**Archwiliad meddygol:** Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a ddewisir dderbyn archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.

**Dyddiad cau:** 4 Tachwedd 2024

**Cyfweliadau:** w/c 11 Tachwedd (lleoliad i'w gadarnhau).

**Sut i ymgeisio:** Cwblhewch y ffurflen gais a'i dychwelyd at swyddi@eisteddfod.cymru. Mae croeso i chi gysylltu â gwenllian@eisteddfod.cymru am sgwrs anffurfiol cyn y dyddiad cau.

## Datganiad Cyfle Cyfartal

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn derbyn gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010, ynghyd â deddfwriaethau eraill perthnasol a'u goblygiadau.

Mae gweithdrefnau mewn lle i oresgyn gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae polisïau Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod unigolion yn cael eu trin yn deg.